Cyngor Tref Bae Colwyn

HYSBYSIAD PENODI DYDDIAD AR GYFER GWEITHREDU HAWLIAU ETHOLWYR

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 MAWRTH 2015

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (SI 3362/337)

1. Bob blwyddyn caiff adroddiad blynyddol y Cyngor ei archwilio a chaiff unrhyw berson sydd â diddordeb y cyfle i archwilio a gwneud copïau o'r adroddiad blynyddol a phob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbyneb sy'n gysylltiedig ag ef. Ar gyfer y flwyddyn a orffennodd 31ain Mawrth 2015 bydd y dogfennau hyn ar gael drwy wneud cais, a hynny drwy rybudd rhesymol, i

(a) Rhowch enw, safle a chyfeiriad y Clerc neu berson arall y gall unrhyw berson wneud cais iddo i archwilio'r cyfrifon

(a) TINA EARLEY, CLERC Y DREF
NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW
BAE COLWYN
LL29 7TE

(b) Rhowch yr amseroedd y gall unrhyw berson wneud cais i archwilio'r cyfrifon rhyngddynt.

Rhwng (b) 9 am a (b) 4 pm ar ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau cyhoeddus).

(c) Rhowch ddyddiad 21 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a nodir yn yr Hysbysiad Archwilio

gan gychwyn ar (c) 1af mehefin 2015

(d)

a gorffen ar (d) ~~30 Mai 2015~~ 29 mehefin 2015.

2. Yn ogystal bydd gan Etholwyr Llywodraeth Leol a'u cynrychiolwyr:

(i) y cyfle i gwestiynu'r archwilydd am y cyfrifon. Gellir cysylltu â'r archwilydd yn y cyfeiriad ym mharagraff 3 isod at y diben hwn ar ~~31 Mai 2015~~. 30/6 ar (f) 12 y prynhawn.....ac ar ôl y dyddiad hwnnw bydd ar gael yn y cyfeiriad a roddir ym mharagraff 3 isod hyd nes cwblheir yr archwiliad

(ii) yr hawl i fynd gerbron yr archwilydd a chyflwyno gwrthwynebiadau i'r cyfrifon neu unrhyw eitem ynddynt. Rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig o wrthwynebiad yn gyntaf i'r archwilydd ac anfon copi at Gyngor.

3. Cynhelir yr archwiliad o dan ddarpariaethau Deddf ArchwilioCyhoeddus (Cymru) 2004, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 a Chod Ymarfer Swyddfa Archwilio Cymru ar Archwilio ac Adolygu. Cynhelir eich archwiliad gan:

Mr Nick Jenkins
UHY Hacker Young
St John' Chambers
Love Street
Chester CH1 1QN

(e) Rhowch enw a safle'r person sy'n gosod yr hysbysiad

(e) TINA EARLEY, CLERC Y DREF

(f) Rhowch ddyddiad gosod yr hysbysiad heb fod yn llai nag 14 diwrnod clir cyn y dydd a nodir yn (c) uchod

(f) 15fed Mai 2015

CYFRIFON Y CYNGOR: CRYNODEB O'CH HAWLIAU
Y sefyllfa sylfaenol

Yn ôl y gyfraith mae gan unrhyw berson sydd â diddordeb yr hawl i archwilio cyfrifon y cyngor. Os oes hawl gennych a'ch bod wedi'ch cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol yna mae gennych (neu y bydd gan eich cynrychiolydd) hefyd yr hawl i ofyn cwestiynau amdanynt, neu i herio eitem cyfrif a gynhwysir ynddynt.

Yr hawl i archwilio'r cyfrifon

Pan fydd eich cyngor wedi terfynu ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, rhaid iddo hysbysebu'r ffaith eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Ar ôl rhoi nodyn rhesymol o'ch bwriad, yna bydd gennych 21 diwrnod gwaith i edrych drwy'r cyfrifon a'r dogfennau ategol. Byddwch yn gallu gwneud copïau o'r cyfrifon a'r rhan fwyaf o'r dogfennau perthnasol gan eich cyngor. Mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi dalu ffi am gopïo.

Yr hawl i ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon

Dim ond cwestiynau'n ymwneud â'r cyfrifon y gallwch eu holi i'r archwilydd. Nid oes rhaid i'r archwilydd ateb cwestiynau am bolisïau, arian, gweithdrefnau'r cyngor nag unrhyw beth arall am y cyngor nad yw'n ymwneud a'r cyfrifon. Rhaid i'ch cwestiynau fod am y cyfrifon y maent yn eu harchwilio. Nid oes rhaid i'r archwilydd ddweud a yw'n credu bod rhywbeth y mae'r cyngor wedi'i wneud, neu eitem yn ei gyfrifon, yn gyfreithlon neu'n rhesymol.

Yr hawl i wrthwynebu'r cyfrifon

Os credwch fod y cyngor wedi gwario arian na ddylai fod wedi'i wario, neu fod rhywun wedi peri colled i'r awdurdod yn fwriadol neu drwy ymddwyn yn anghyfrifol, gallwch gyflwyno gwrthwynebiad i'r archwilydd allanol drwy anfon 'hysbysiad gwrthwynebu' ffurfiol, **y mae'n rhaid iddo fod yn ysgrifenedig** i'r cyfeiriad isod. Rhaid i chi ddweud wrth yr archwilydd pam eich bod yn gwrthwynebu. Rhaid i'r archwilydd benderfynu ar eich gwrthwynebiad. Os na fyddwch yn hapus â'r penderfyniad, gallwch wneud apêl i'r llysoedd.

Gallwch hefyd gyflwyno gwrthwynebiad os byddwch yn credu bod rhywbeth yn y cyfrifon y dylai'r archwilydd drafod â'r cyngor neu roi gwybod i'r cyhoedd amdano mewn 'adroddiad er budd y cyhoedd'. Unwaith eto, **rhaid i chi roi eich rhesymau yn ysgrifeneddig**. Yn yr achos hwn, rhaid i'r archwilydd benderfynu p' un ai i gymryd unrhyw gamau gweithredu. Fel arfer bydd yr archwilydd yn rhoi rhesymau am ei benderfyniad, ond nid oes yn rhaid iddo/iddi wneud hynny, ac ni allwch wneud apêl i'r llysoedd. Ni allwch ddefnyddio'r 'hawl i wrthwynebu' hyn i wneud cwyn bersonol nag i wneud cais yn erbyn eich cyngor. Dylech fynd â'r cwynion hyn at eich Canolfan Cynghori Leol, eich Canolfan Gyfraith leol, neu eich cyfreithiwr. Yn ogystal, efallai y gallwch gwyno wrth y Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, os credwch fod Aelod o'r Cyngor wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Gellir cysylltu â'r Ombwdsman yn: Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed,CF35 5LJ, rhif ffôn 01656 641150

Beth arall y gallwch ei wneud

Yn lle gwrthwynebu, gallwch roi gwybodaeth i'r archwilydd sy'n berthnasol i'w gyfrifoldebau/chyfrifoldebau. Er enghraifft, gallwch ddweud wrth yr archwilydd os credwch fod rhywbeth o'i le â'r cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y modd y mae'r cyngor yn rhedeg ei wasanaethau. Nid oes yn rhaid i chi ddilyn unrhyw gyfyngiadau amser neu weithdrefnau penodol. Nid oes yn rhaid i'r archwilydd roi adroddiad manwl i chi am ei ymchwiliad/ei hymchwiliad i'r materion a godwyd gennych, ond fel arfer bydd yn sôn wrthych am y canlyniad cyffredinol.

Gair i gloi

Rhaid i Gynghorau, ac felly drethdalwyr lleol, dalu'r costau sydd ynghlwm wrth ddelio â chwestiynau a gwrthwynebiadau. Pan fydd yr archwilydd yn penderfynu pa un a'i gymryd eich gwrthwynebiad ymhellach, mae un o gyfres o ffactorau y mae'n rhaid iddo/iddi ddwyn i ystyriaeth yn cynnwys y gost sy'n gysylltiedig â hyn. Bydd ond yn parhau â'r gwrthwynebiad os yw er budd y cyhoedd i wneud hynny. Os gwnewch apêl i'r llysoedd, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am y camau hyn eich hun.

Rhagor o wybodaeth

Ceir gwybodaeth fanylach am eich hawliau yng nghyhoeddiad y Swyddfa Archwilio Cymru – ***Eich hawliau- Cyfrifon y Cyngor***. Fel arall cewch hyd iddo ar wefan y Swyddfa Archwilio Cymru yn http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/wao Council Accounts a5 welsh.pdf .	Os dymunwch gysylltu â'ch archwilydd allanol ysgrifennwch at: Mr Nick Jenkins UHY Hacker Young St John's Chambers Love Street Chester CH1 1QN